# Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy

GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN



**"Felly, fe fydd y rhai ola'n gyntaf, a'r rhai cynta'n olaf. (Mae llawer wedi'u galw, ond ychydig sy wedi'u dewis)".**

**Mathew 20:16**

***Gweler yr erthygl ar Islwyn Ffowc Elis y tu mewn***

**Rhifyn 3**
**PAPUR TACHWEDD 2024**

# Gair gan ein Gweinidog

## Tân Gwyllt

***YDY***, mae'n adeg o'r flwyddyn eto pan fyddwn yn rhyfeddu at liwiau'r gwreichion llachar yn y nen; pan fyddwn ni, berchnogion anifeiliaid anwes, yn ofni mynd â'r ci allan am dro am nosweithiau cyn 5 Tachwedd oherwydd y sŵn. Pan fydd siopwyr a masnachwyr, yr heddlu a'r brigâd dân yn rhybuddio pawb i fod yn ofalus gyda'r tân gwyllt, ac i'w cadw mewn blwch cyn iddynt gael eu defnyddio, er diogelwch.



Fedrwn ni fyth â gwadu nad yw gweld y gwreichion lliwgar yn goleuo'r awyr ar 5 Tachwedd yn brofiad syfrdanol.

Mae pob golau bach yn torri ar y tywyllwch, ac i fod yn dechnegol, mae dwy ffiws wedi'u hamseru'n berffaith o fewn cragen pob tân gwyllt sy'n tanio'r un pryd er mwyn creu'r campwaith o oleuni.

Os yw cragen y tân gwyllt yn eistedd mewn blwch wedi'i orchuddio, wedi'i amddiffyn rhag unrhyw beth a allai ei danio, yna ni welir byth yr harddwch sydd ynddi. Ni fydd yr arddangosfa o olau y mae gan y gragen y potensial i'w harddangos fyth yn cael ei gweld.

Mae ein ffydd yn debyg i dân gwyllt. Mae Mathew 5:14-16 CSB yn ein hatgoffa:

*"Chi yw goleuni'r byd. Ni ellir cuddio dinas sydd wedi'i lleoli ar fryn. Nid oes neb yn goleuo lamp ac yn ei gosod dan fasged, ond yn hytrach ar ganhwyllbren, ac y mae'n goleuo i bawb sydd yn y tŷ. Yn yr un modd, bydded i'ch goleuni lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da a rhoi gogoniant i'ch Tad sydd yn y nefoedd."*

Er efallai ei bod yn demtasiwn i ni gadw ein "ffydd yn y blwch", gan ei bod ambell waith yn haws gwneud hynny na datgelu goleuni Crist, nid yw hynny'n opsiwn mewn gwirionedd. Fel Cristnogion, rhaid i ni beidio ag ofni disgleirio golau Duw i awyr y nos, gan ddatgelu harddwch yr Efengyl i fyd tywyll.

Felly sut allwn ni wneud hyn? Yn union fel y ffiwsiau sydd wedi'u hamseru'n berffaith yng nghragen y tân gwyllt, gall yr Ysbryd Glân o'n mewn ddangos i ni'r ffordd i ledaenu Goleuni'r byd.



Gwyliwn am gyfleoedd i rannu ein stori ffydd trwy wasanaethu eraill a chwrdd â'u hanghenion, yn gorfforol ac yn ysbrydol.

***A*** dyna fydd arddangosfa o oleuni Duw!

## Gweddïwn

Arglwydd y Goleuni,
mae dy harddwch yn goleuo tywyllwch y byd.
Wrth i'r tân gwyllt oleuo'r nen,
bydded i ni hefyd adlewyrchu'n fywiog lawenydd a hyfrydwch dy Deyrnas.
Gad i'r dathliad hwn o eiliadau dros dro
ein galw i mewn i oleuni dy gariad.
Iesu Grist, Goleuni'r Byd,
aros gyda ni ac arwain ni.



**Amen**



## E-BOST NEWYDD EIN GWEINIDOG

parchbetiwyn@gmail.com



## ORGAN Y PRIORDY

**Mae organ y Priordy unwaith eto'n weithredol. Diolch i Adrian Evans, Huw Jones a Peter Hughes Griffiths am eu gwaith mewn cyswllt â hyn.**

## FFENESTRI LLIW HEOL AWST

**Diolch yn fawr iawn i Phil Hopley a'i dîm am ymgymryd ag ychydig o waith i sicrhau bod ffenestri lliw Heol Awst yn ddiogel. Gwerthfawrogir hyn y fawr.**



# DARLLENIADUR


| Mis Tachwedd | Darlleniad |
|---|---|
| **Wythnos 1** | **Marc 12: 28-34** |
| **Wythnos 2** | **Marc 12: 38-44** |
| **Wythnos 3** | **Marc 13: 1-8** |
| **Wythnos 4** | **Ioan 18: 33-37** |
| **Wythnos 5<br>Adfent 1** | **Jeremeia: 33: 14-16** |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**DYDD GWEDDI'R BYD**
**a**
**RHIAN EVANS ac EIRLYS OWEN**
**JOHN a CARYS GREEN**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***



**YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

## CYMDEITHAS YR OFALAETH

| Dyddiad | Diwrnod | Amser | Lle | Digwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| 20.11.2024 | Mercher | 2 | Amgueddfa<br>Sir Gâr<br>Abergwili | Siaradwr<br><br>Gethin Thomas |

# OEDFA DDIOLCHGARWCH DEULUOL Y PRIORDY







**Nia Lewis**



## Oedfa Ddiolchgarwch Deuluol Y Priordy

***A*** hithau'n dymor yr Hydref, dyma'n cyfle ni i ddod at ein gilydd i ddiolch i Dduw unwaith yn rhagor.

Cafwyd gair o groeso gan ein Gweinidog. Yn dilyn yr emyn cyntaf a'r cyhoeddiadau, gwnaed y casgliad gan Cadi, Hedd, Ilan, Greta, Miriam, Brynmor a Sianco… mae'n rhaid bod y bocsys yn drwm, chwedl Beti-Wyn! Ymunodd pawb i ganu pen-blwydd hapus i Sianco a derbyniwyd rhoddion i'r banc bwyd oddi wrth y plant a'r gynulleidfa.

Cyfle i rai o aelodau Pobl Ifainc y Priordy (PIP) oedd hi i'n tywys drwy'r oedfa. Dywedodd Iestyn ein bod yn mynd i gael cyfle i feddwl am bump o eiriau a fydd yn ein helpu ni i ddathlu'r Cynhaeaf neu Ddiolchgarwch.

'Rhyfeddu' oedd gair Ethan a soniwyd am y byd yn llawn o bethau rhyfeddol. Ymlaen at Elliw a'r gair 'Diolch'. Mae bod yn ddiolchgar yn fwy na dweud y gair Diolch; mae'n fater o werthfawrogi popeth da sydd gennym. Y trydydd gair oedd 'Pam' a dywedodd Anna bod y Beibl yn ein dysgu ni fod pethau drwg yn rhan o fywyd bob dydd.

Marged oedd â'r pedwerydd gair sef 'Dibynnu.' Rydym yn cofio yr adeg yma o'r flwyddyn sut rydym yn dibynnu ar ein gilydd. O'r ffermwyr i'r dosbarthwyr, o'r ffatrïoedd i'r siopwyr, rydym i gyd yn rhan o rwydwaith.

Jac oedd gyda'r gair olaf sef 'Gofalu.' Cawsom ein hatgoffa o'r hyn allwn ni ei wneud- pethau bach megis cyfrannu i fanciau bwyd neu wneud newidiadau bach i'n ffordd o fyw fel ein bod yn defnyddio llai o adnoddau'r ddaear.

Tro plant yr Ysgol Sul oedd hi nesa'. Cawsom benillion gan Miriam, Hedd, Brynmor, Sianco ac Ifan yn DIOLCH am y cynhaeaf. Yna ymlaen at dair cân hyfryd gydag unawdau a deuawdau gan Greta, Beca, Cadi a Cadi.

Fel arfer, cawsom neges bwrpasol gan Beti-Wyn… dwi'n aml yn pendroni o ble mae'n cael ei syniadau bob wythnos! Yn y fasged, roedd llond lle o lysiau. Ar y daten, roedd smotyn- diolch am lygaid. Ymlaen wedyn at y winwns a sôn y bydd Duw yno i sychu'r dagrau, boed yn blentyn neu'n oedolyn (neu fel y cynghorodd Beca i ni- gwisgwch "goggles" i bilio'ch winwns er mwyn osgoi'r dagrau!)

Ymlaen at y blodfresych nesaf a sôn am y galon. Wyddoch chi mai gair arall am domato yw 'afal cariad'? Diolchwn, wrth gwrs, am gariad. Yn olaf, y corn melys… a'r clustiau

amdano. Mae'n bwysig ein bod yn clywed ac yn bwysicach fyth ein bod yn gwrando.

***ROEDD*** digon o fynd gyda'r canu'r bore 'ma i gyfeiliant y band sef Heather, Jayne, Ethan, Angharad, Tomos a Gareth. Diolch i bawb am oedfa arbennig.

## OEDFA DDIOLCHGARWCH YR HWYR YN Y PRIORDY







## OEDFA DDIOLCHGARWCH YR HWYR

Daeth cynulleidfa dda i oedfa'r hwyr, yn cynnwys cyfeillion o wahanol eglwysi'r Ofalaeth.

Y pregethwr gwadd oedd Yr Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi, un sy'n gweithredu fel ffermwr yn ogystal â chlerigwr. Gwnaeth yn fawr o'i phrofiad yn y ddau faes wrth iddi gyflwyno neges bwrpasol iawn i ni. Mae amaethwyr, gyda'u hoedran cyfartaledd yn 65 erbyn nawr, yn brinnach nag y buont. Felly hefyd weithwyr Cristnogol. Ond, fe'n hanogodd, Gristnogion ac Amaethwyr fel ei gilydd, i ddal ati a pharhau i dorri cwys syth a hau hadau da. Diolchwn am y cynhaeaf a'r ymdrechion a wneir gan amaethwyr ac eraill i sicrhau cynhaliaeth pobl drwy fara. Mae digon ohono i bawb ond i ni ddysgu rhannu'n deg. Diolchwn hefyd am fara'r bywyd, y gwir fara o'r Nef, a ddaw i ni drwy Iesu. Gweddïwn am ffydd gadarn i bwyso ar y bara arbennig hwn.

Llywyddwyd yr Oedfa gan ein Gweinidog. Hi hefyd a lywiodd y Cymun. Cafodd ei chynorthwyo gyda'r elfennau gan Meleri Llwyd O'Leary, Elinor Wyn Reynolds, Elis Jones a Tim Hayes.

Darllenodd Elinor Wyn Reynolds o'r Beibl (Ioan 6:25-35) a gweddïodd Siôn Page, gŵr ifanc â'i fryd ar fod yn bregethwr sy'n derbyn hyfforddiant gan Beti-Wyn. Y cyhoeddwr oedd Elis Jones a'r casglyddion oedd Greta a Trystan. Roedd Angharad Wyn wrth yr organ.

Mwynhawyd swper gyda'n gilydd yn y Festri wedi'r oedfa - diolch i aelodau'r Pwyllgor Bwyd newydd a oedd ar brawf!! Cytunodd pawb eu bod wedi llwyddo gyda chlod mawr! Talodd y Parchedig Tom Defis y diolchiadau gan ddweud fel roedd pawb yn edrych ymlaen at weld yr Ofalaeth newydd yn cydweithio ac yn ffynnu.

| CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH | | | |
|---|---|---|---|
| **ELIM** | **Prynhawn Mercher 4 Rhagfyr** | **1.30** | **Capel Elim** |
| **HEOL AWST** | **Prynhawn Mercher 27 Tachwedd** | **2.00** | **Festri Heol Awst** |
| **Y PRIORDY** | **Nos Lun 18 Tachwedd** | **7.30** | **Festri'r Priordy** |

## DATHLU PEN-BLWYDD ARBENNIG BRIN ENOCH















## Pen-blwydd Hapus yn 100 oed

***LLAWENYDD*** mawr i aelodau a chyfeillion Capel Heol Awst, Caerfyrddin ynghyd â Maer a Maeres y Dref oedd uno mewn dathliad arbennig iawn bnawn Mawrth 8 Hydref ar achlysur pen-blwydd un o ddiaconiaid yr eglwys, Mr Brinley Enoch yn 100 oed.

Roedd byrddau'r festri yn wledd i'r llygad, diolch i dîm ardderchog o chwiorydd yr eglwys dan arweiniad Olga Williams, a phawb wedi cyd-dynnu er mwyn gwneud yn siŵr bod y prynhawn yn ddathliad haeddiannol i fonheddwr sy'n uchel iawn ei barch yn ein golwg ni i gyd.

Un o Benygroes, Sir Gaerfyrddin yw Brinley Enoch a anwyd ar 4 Hydref 1924. Cyfrifydd wrth ei alwedigaeth a sefydlodd fusnes ei hun yng Nghaerfyrddin – busnes sy'n dal i fod yn nwylo gofalus y teulu gan i'w fab a'i ŵyr ddilyn ôl troed eu tad a'u tad-cu.

Afraid dweud fod Brin wedi gweld newidiadau mawr yn ystod ei oes hir, ond llwyddodd i addasu yn rhyfeddol gyda threigl y blynyddoedd ac mae'n dal i ddysgu o hyd gan feistroli'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf er mwyn gwrando ar Oedfa Ddigidol yr Ofalaeth ar ei liniadur bob bore Sul! Mae'n bresenoldeb ffyddlon yn yr oedfaon yn Heol Awst ynghyd â digwyddiadau cymdeithasol yr eglwys, ac rydym yn elwa'n fawr o'i brofiad a'i ddoethineb mewn trafodaethau yn ein cyfarfodydd diaconiaid. Yn sgwrsiwr deallus a difyr ac yn meddu ar gof rhyfeddol, mae Brin yn ŵr gwybodus sy'n parhau i ychwanegu at ei wybodaeth drwy ddarllen yn eang a chadw ei ddiddordeb yn nigwyddiadau'r dydd. Does rhyfedd nad yw'n edrych ei oed!

Wedi i'n gweinidog, Y Parchg Beti-Wyn James ei gyfarch ar ran aelodau a chyfeillion Capel Heol Awst, gwahoddwyd Brin i dorri'r gacen ben-blwydd arbennig a baratowyd ar ei gyfer. Roedd dwy ddelwedd bwysig ac sy'n nodweddiadol o fywyd Brin ar y gacen – car 'open top' coch y gwelir Brin yn ei yrru'n ofalus o'r tŷ i'r capel! – a hefyd Feibl – a fu, ac sydd o hyd yn 'llusern i'w draed ac yn llewyrch i'w lwybr'.

***BONHEDDWR*** wrth natur a Christion trwy ras. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Brinley Enoch a diolchwn am y fraint o gael dathlu'r garreg filltir bwysig hon yn ei gwmni.




**Beti-Wyn James**

## CWRDD DIOLCHGARWCH DEULUOL ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY YN HEOL AWST

Roedd Festri Heol Awst yn llawn ar gyfer y Cwrdd arbennig hwn ar Fore Sul 13 Hydref 2024.

Roedd cael cwmni plant Ysgol Sul y Priordy yn hyfryd ac ar ôl i'n Gweinidog gael gair â hwy am y tebygrwydd rhwng y blodyn haul yn troi at oleuni'r haul a ninnau'n troi at Dduw am gymorth, aethant i dreulio gweddill yr amser yn yr Ysgol Sul.



Duw Creawdwr nef a daear oedd dan sylw ein Gweinidog yn ei myfyrdod. Clywsom fel y mae Duw yn parhau i fod yn weithredol yn ei fyd gan weithio i wneud y byd yn lannach. Mae hefyd ddylestwydd arnom ni fel stiwardiaid i warchod creadigaeth Duw yn ddoeth er mwyn y presennol a'r dyfodol.

Arweiniodd hyn at y Cymundeb pan gafodd ein Gweinidog gymorth Olga Williams a Rhian Jones i weini'r elfennau.

Wrth y drysau i'n creosawu roedd Ernest Jones a Dave Thomas. Cyflwynodd Luned Voyle Thomas (P) y weddi a'r casglyddion oedd Alun Williams a Hywel Evans. Y cyhoeddwr oedd Phil Hopley a Llio Dyfri Jones oedd wrth y piano.



**Dydd Gweddi'r Byd**

**Cynhadledd i Baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2025**

**Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2024**
**am 11.00**

**Capel Bryn Gwenith, Henllan, Castellnewydd Emlyn**
**Cyswllt: Parch Carys Ann, Bryngwenith**

**Croeso i bawb**

**Cofio**




## ISLWYN FFOWC ELIS
## Cyfathrebwr heb ei ail

***GANED*** Islwyn Ffowc Elis yn Wrecsam **17 Tachwedd 1924, ganrif yn ôl i'r mis hwn**, ei fagu yn Nyffryn Ceiriog a'i addysgu yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor a'r Coleg Diwinyddol Unedig Aberystwyth. Bu hefyd yng Ngholeg y Bala yn cwblhau'i hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth. Bu'n weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llanfair Caereinion ym Mhowys ac yn Niwbwrch, Ynys Môn.

Priododd Eirlys Rees Owen ym 1950 yn Y Bwlch, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Rhoslefain, Tywyn.  Ganwyd eu merch, Siân, yn 1960.

Gadawodd y weinidogaeth ym 1956 a mynd i fyw i Fangor yn sgwennwr a darlledwr ar ei liwt ei hun. Doedd y weinidogaeth gyfundrefnol draddodiadol ddim at ei ddant o gwbl. Rhwng 1963-68 bu'n ddarlithydd ac uwch ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin. O 1968 i 1971 bu'n Gyfarwyddwr Cyfieithu a Chynhyrchu gyda Chyngor Llyfrau Cymru.


Symudodd i Wrecsam ar ôl byw yn Llansteffan (1963-65) a Llangynnwr (Ucheldir, Penymorfa) (1965-70) a cheisio ennill bywoliaeth fel sgwennwr ar ei liwt ei hun am yr eildro.




Cafodd ei benodi'n ddarlithydd yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan yn 1975 ac yna'n uwch-ddarlithydd a darllenydd a bu yno nes iddo ymddeol. Derbyniodd sawl anrhydedd wedi hynny.  Bu farw 22 Ionawr 2004 yn Ysbyty Glangwili.

Cyfrannodd Islwyn Ffowc Elis gymaint mewn sawl maes yn ystod ei yrfa.  Roedd mor amryddawn. Fe oedd yr awdur Cymraeg mwyaf llwyddiannus yn ystod y pumdegau a'r chwedegau.  Achubodd y nofel Gymraeg trwy ennill cenhedlaeth newydd o ddarllenwyr ifainc.  Detholwyd 'Cysgod y Cryman' fel nofel bwysicaf yr 20g gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 1999. Yn y byd

gwleidyddol wedyn, cyfrannodd yn ddisglair i fuddugoliaeth Gwynfor Evans yn Sir Gâr ym 1966. A fe gyfansoddodd gerddoriaeth yn ogystal â geiriau 'Cân Dashenka' (Y Sipsiwn) a fu'n gymaint o ffefryn gan gorau meibion Cymru.




Cofiwn hefyd iddo drosi Efengyl Mathew i Gymraeg diweddar yn 1961 – fel gwaith comisiwn gan yr Eglwys Bresbyteraidd. Meddai'r pryd hwnnw: '*Nid oes neb heddiw yn siarad Cymraeg 1620, na neb yn ei sgrifennu chwaith. Ac eto, mae'n rhaid i Gymro a Chymraes ddarllen y llyfr pwysicaf i'w bywyd yng Nghymraeg tair canrif a hanner yn ôl, neu'i ddarllen yn Saesneg neu beidio â'i ddarllen o gwbwl. Ac ysywaeth, fe wyddom mai dyna sy'n digwydd.'*

Meddai Rheinallt Llwyd yn y gyfrol Bro a Bywyd – Islwyn Ffowc Elis (2007): *Ei nod bob amser oedd cyrraedd cynulleidfa, boed fel gweinidog yr Efengyl neu ddarlledwr neu olygydd neu sgriptiwr rhaglenni teledu a radio neu addysgwr neu hyfforddwr llenorion ifanc neu gyfansoddwr caneuon ysgafn neu ddramodydd neu bropagandydd gwleidyddol. Ei ddeunydd crai ym mhob cyd-destun oedd geiriau a'i ddawn gwbl ddihafal oedd ei allu i'w trin a'u trafod*.'


Efengyl Mathew

TROSIAD I GYMRAEG DIWEDDAR

Gan

Diolch am gyfathrebwr mor ddisglair ac am ei waddol neilltuol i Gymru.

Beth am i ni ddiweddu drwy flasu rhan o drosiad Islwyn Ffowc Elis o Efengyl Mathew i Gymraeg diweddar. Cofiwn eiriau'r awdur mai 'pennaf ymgais y trosiad hwn yw bod yn ddarllenadwy':

**Mathew 20: 1-16**

**"Oherwydd mae teyrnas y nefoedd yn debyg i dirfeddiannwr a aeth allan yn y bore bach i gyflogi gweithwyr i'r winllan. Ac wedi cytuno â'r gweithwyr am un darn o arian y dydd, fe'u hanfonodd-nhw' i'w winllan. Tua naw o'r gloch fe aeth allan a gweld rhai eraill yn sefyll yn sgwâr y farchnad heb ddim i'w wneud, ac wrth y rheiny fe ddywedodd,'Ewch chithau i'r winllan, ac mi dalaf ichi**

**beth bynnag fydd yn deg.' Ac i ffwrdd â nhw. Fe aeth allan eto tua hanner dydd a wedyn tu thri o'r gloch y prynhawn, ac fe wnaeth yr un peth. Yna *tua phump o'r gloch, fe aeth allan a chael rhai eraill eto'n sefyllian, ac fe ofynnodd iddyn-nhw, 'Pam yr ydych-chi'n sefyll yma drwy'r dydd yn gwneud dim?' 'Am nad oes neb wedi'n cyflogi-ni,' oedd yr ateb. 'Ewch chithau i'r winllan hefyd,' meddai yntau ('ac fe gewch beth bynnag fydd yn deg').' "Pan ddaeth amser noswylio, fe ddywedodd meistr y winllan wrth ei hwsmon,'Galw'r gweithwyr a dyro'u cyflog iddyn-nhw, gan ddechrau â'r rhai olaf a diweddu â'r cyntaf. Fe ddaeth y rhai a gyflogwyd tua phump o'r gloch, a chael un darn arian bob un. Pan ddaeth tro'r rhai cyntaf, 'r oedden' nhw'n disgwyl y cae-nhw' fwy, ond un darn arian bob un gawson' hwythau. Wrth gymryd yr arian, grwgnach 'wnaethon-hw' yn erbyn y tirfeddiannwr, 'Dim ond am un awr y gweithiodd y rhai olaf yma, ac 'r wyt-ti wedi'u gwneud-nhw' cystal â ninnau, sy wedi slafio drwy'r dydd yn y gwres!' "Fe atebodd yntau, a dweud wrth un ohonyn -hw', 'Gyfaill, 'd ydw-i'n gwneud dim cam â thi. Am un darn arian y dar'u inni gytuno, yntê? Wel, cymer yr hyn sy gen-ti, a dos adre.' 'R wy'n dymuno rhoi i'r olaf yma yr un fath ag i tithau. 'Oes genny' ddim hawl i wneud fel y mynnwy' a'm heiddo fy hun? 'Ydy'n rhaid i ti fod yn llygad-y-geiniog am fy mod i'n hael? "Felly, fe fydd y rhai ola'n gyntaf, a'r rhai cynta'n olaf. (Mae llawer wedi'u galw, ond ychydig sy wedi'u dewis)".**

***(Tua phump o'r gloch: Unfed awr ar ddeg y dydd Iddewig, a oedd yn darfod am chwech o'r gloch y prynhawn**

**CWRDD CHWARTER**
**BETHLEHEM NEWYDD**
**SANCLÊR**
**SA33 4AN**



**Dydd Iau, 21 Tachwedd 2024**



Y Gynhadledd am 10.30 a'r Cyfarfod Blynyddol am 1.30

Croesawu'r Cadeirydd newydd, sef Jean Lewis. Bydd Cymundeb. Ceir anerchiad gan y Cadeirydd newydd.

Trefnir lluniaeth ysgafn rhwng y cyfarfodydd. Croeso cynnes i bawb.



# CWIS Y GWYRTHIAU

## Tybed pa mor gyfarwydd ydych chi â'r gwyrthiau yn fersiwn beibl.net?!!!!
## Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!

**Iesu'n bwydo'r pum mil**

**Mathew 14: 13-21**



**Pan glywodd Iesu beth oedd wedi digwydd, aeth i ffwrdd mewn --- i le tawel i fod ar ei ben ei hun. Ond clywodd y tyrfaoedd am hyn, a'i ddilyn ar droed o'r trefi. Pan gyrhaeddodd Iesu'r lan, roedd gweld y dyrfa fawr yno yn ei gyffwrdd i'r byw, ac iachaodd y rhai oedd yn ---.**
**Pan oedd hi'n dechrau nosi, dyma'r disgyblion yn dod ato a dweud, "Mae'r lle yma'n anial ac mae'n mynd yn ----. Anfon y bobl i ffwrdd, iddyn nhw gael mynd i'r pentrefi i brynu ----." Atebodd Iesu, "Does dim rhaid iddyn nhw fynd i ffwrdd. Rhowch chi rywbeth i'w fwyta iddyn nhw." Medden nhw wrtho, "Dim ond --- torth fach a dau -------- sydd gynnon ni." "Dewch â nhw i mi," meddai. A dwedodd wrth y bobl am eistedd i lawr ar y --------. Wedyn cymerodd y pum torth a'r ddau bysgodyn ac offrymu ----- o ddiolch i Dduw. Torrodd y bara a rhoi'r torthau i'w ddisgyblion, a dyma'r disgyblion yn eu rhannu i'r bobl. Cafodd pawb ddigon i'w fwyta, a dyma nhw'n codi deuddeg llond basged o dameidiau oedd wedi'u gadael dros ben. Roedd tua --- mil o ddynion wedi cael eu bwydo, heb sôn am wragedd a -----!**

**Atebion - Tudalen 32**

**Peter Hughes Griffiths yn trafod**



## ADDOLDAI HEOL Y PRIOR

***PAN*** symudon ni i Gaerfyrddin yn 1972 roedd Heol y Prior, Caerfyrddin, yn fwrlwm Cristnogol gyda phedwar addoldy Cymraeg o fewn 200 llath i'w gilydd.

Sefydlwyd y Capel Methodistiaid Calfinaidd Cymraeg Bethania yn 1902 fel cangen o gapel mawr Heol Dŵr ar gyfer yr aelodau yn y pen hwnnw o'r dref. Un o'r gweinidogion rwyf fi yn ei gofio ar Gapel Bethania oedd y diweddar Barchedig John Pinion Jones, ac mae Gareth ei fab yn weinidog presennol ar gapeli Blaen-y-coed a Bryn Iwan.  Daeth yr achos i ben ym Methania rai blynyddoedd yn ôl a bellach fe'i prynwyd gan y Mwslemiaid sydd am sefydlu Mosg mwy o faint yno a symud o'r adeilad drws nesaf presennol.



Gosodwyd y garreg sylfaen ar gyfer Eglwys Gymraeg Sant Ioan yn Heol y Prior ar y 19eg o Fehefin 1889 ac fe'i hagorwyd ar Fehefin y 15ed 1890 gan Esgob Tyddewi ar gyfer cynnal gwasanaethau eglwysig Cymraeg yn y rhan hon o'r dref. Gosodwyd potel o dan y garreg sylfaen yn cynnwys copi o'r *Carmarthen Journal a'r Welshman* am yr wythnos honno ynghyd â chylchgrawn Eglwys San Pedr a darnau o arian y cyfnod.  Cofiaf yn dda am un o gyn offeiriaid Eglwys San Pedr, y Parch Randolph Thomas yn gwasanaethu a chynnal oedfaon Cymraeg yno ar y Suliau, ac roedd hynny'n dal i ddigwydd tan yn ddiweddar nes i'r aelodaeth edwino. Yn ystod yr haf hwn gwelwyd *SOLD* ar yr arwydd *AR WERTH* y tu allan i'r eglwys.



Yn 1786 yr adeiladwyd Penuel Capel y Bedyddwyr Cymraeg ar dir a alwyd yn Parc y Siop yn Heol y Prior. Fe ddaeth Joshua Watkins

yn weinidog yno yn 1794 ac yn 1797 trefnodd i wneud y lle ddwywaith ei faint gwreiddiol, ac er iddo gael ei ddiarddel am gyfnod




oherwydd ei ddaliadau diwinyddol fe ddaeth yn ôl i ofalu am gapel Penuel am gyfnod hir iawn. Cafodd y capel ei ailadeiladu yn 1851 ac eto yn 1910. Bellach mae Capel Penuel wedi ei werthu a'r aelodau yn addoli ar hyn o bryd yn neuadd Ysgol y Dderwen ar y Sul. Gwyddom yn awr mai'r bwriad yw creu amgueddfa ar gyfer y goruwchnaturiol ar y safle.

Felly, yr unig addoldy Cymraeg sydd ar ôl yn Heol y Prior, Caerfyrddin ar ôl haf 2024 yw Capel Annibynwyr Y Priordy. Ers ei sefydlu yn 1876 braf yw cyhoeddi bod yr achos yn dal yn gryf ac yn llewyrchus o dan arweiniad ein gweinidog y Parch Beti-Wyn James.



Os am fwy o wybodaeth am hanes yr addoldai hyn ac eraill yn nhref Caerfyrddin ewch i dudalen 151 o'r llyfr gwerthfawr *The Story of Carmarthen* gan Joyce a Victor Lodwick.

***TRIST*** yw cofnodi, a gorfod derbyn sefyllfa'r addoldai Cymraeg yn Heol y Prior erbyn hyn, ac mai dim ond un ohonyn nhw sydd bellach yn cynnal y fflam Gristnogol yn y rhan arbennig hon o dref Caerfyrddin.




**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

# CAPEL Y GROES SANCTAIDD

**Sedona, Arizona**



**Mae'r Eglwys Gatholig hon wedi'i chodi rhwng dau feindwr coch eu cerrig yn anialwch Arizona.**

**Fe'i codwyd rhwng 1954-6.**

**Mae'n ddyluniad syml ond trawiadol iawn. Mae'r capel ei hunan yn cynnig golygfeydd godidog.**

**Mae'n gyrchfan i filiynau o bererinion ac ymwelwyr bob blwyddyn.**

**Capel hardd a heddychlon iawn.**

## YSGOL SUL Y PRIORDY'N DYSGU AM YR HEDYN MWSTARD YN TYFU'N FAWR













# Ifanc@gofalaeth

## Dathlu'r Nadolig gyda'r Ysgol Sul

## Y Priordy

**Nos Sul, 1 Rhagfyr am 5.00**
**Oedfa dan olau cannwyll yng nghwmni Pobl Ifanc Y Priordy**

**Bore Sul 8 Rhagfyr am 10.00**
**Oedfa Nadolig Y Priordy yng nghwmni'r Ysgol Sul ac eraill**
**Paned i ddilyn a pharti'r Ysgol Sul**

## Elim, Ffynnon-ddrain

**P'nawn Sul 8 Rhagfyr am 3.00**
**Oedfa Nadolig yng nghwmni plant yr Ysgol Sul ac eraill**
**Parti i ddilyn**

**Bore Nadolig**
**Oedfa Deulu fer yn Y Priordy am 9.00**

## Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin yn cefnogi Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Gâr

Ein braint fydd cefnogi'r Apêl hon eleni. Gwahoddir rhoddion o oed babanod bach hyd at oed arddegau (awgrym o bris £5)
Peidiwch â phacio'r anrhegion os gwelwch y dda

**BYDD BLWCH YM MHOB CAPEL I DDERBYN Y RHODDION TAN DDIWEDD TACHWEDD**

# Chwilotair Llythrennau 'Th' a 'U'

(un llythyren i bob sgwâr)

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | T | E | U | I | U | T | G | O | R | N | T | F | A |
| H | H | U | S | A | L | H | N | D | D | I | T | H | R |
| E | U | C | H | E | L | F | O | L | I | A | N | T | U |
| S | U | A | H | C | N | T | T | R | U | I | N | D | T |
| A | U | N | I | I | D | H | H | D | U | L | O | H | H |
| L | L | F | A | R | U | A | I | H | N | H | I | G | D |
| O | L | E | U | U | T | D | E | L | I | N | D | I | R |
| N | U | U | L | D | I | E | S | E | G | I | D | E | T |
| I | A | D | I | S | D | U | F | U | I | O | E | N | A |
| A | G | F | U | H | D | S | D | T | N | N | H | I | E |
| I | N | H | U | C | H | D | E | R | A | I | L | E | H |
| D | T | G | U | O | A | O | O | G | F | A | O | E | T |
| N | S | S | O | G | S | H | H | C | U | G | L | N | N |
| A | S | I | N | G | S | I | W | D | D | R | U | A | I |

UNIG
USAL
URI
UDO
THUS
THESALONIAID
THADEUS
UCHELFOLIANT
UNIONI
UTGORN
UCHDER
THEATR
UFUDD
URDDWISG

**Cofiwch fy nghyfeiriad ebost newydd**
**parchbetiwyn@gmail.com**

## Diolchgarwch

Diolch yn fawr iawn i bawb am y rhoddion i Fanc Bwyd Caerfyrddin. Rydym wedi mynd â dau lwyth i'r ganolfan! Gwych!

Hwyl tan y tro nesaf

*Beti Wyn*

Gofalus gyda'r Tân Gwyllt!



# PEN-BLWYDD HAPUS



**Llongyfarchiadau i Hazel Julian (E) ar ddathlu ei phen-bwydd yn 90 oed.**

**Pleser i'n Gweinidog oedd cael ei chyfarch ar ddydd ei phen-blwydd ar ran aelodau Elim**

## OEDFA DDIOLCHGARWCH CARTREF PRESWYL PLAS-Y-DDERWEN

**Fel y dywedodd ein Gweinidog ar ei gweddi fe droiodd lolfa'r Cartref yn Gapel a'r teulu a'r ffrinidau yn Eglwys ar y prynhawn hyfryd hwn o Hydref. Diolch am y gwaith celf yn lliwiau cynnes yr Hydref a addurnai'r amgylchedd gan greu naws arbennig.**

**A Blodau'r Haul, blodau cenedlaethol Wcráin, oedd y sbardun i neges ein Gweinidog. Yn union fel y mae'r Blodau Haul yn troi at oleuni'r Haul am gynhaliaeth, mae'n bwysig i ni wynebu Duw bob amser a bod yn ffyddlon iddo er mwyn derbyn nerth oddi wrtho.**


**Daeth y darlleniadau**
**o'r ddau Destament, Salm 8 a Dameg yr Heuwr yn Efengyl Marc. Cyflwynodd y Parchedig Catrin Ann yr emynau.**

**Mae'n diolch i'n Gweinidog a Lisa Peart, Cydgysylltydd Gweithgareddau, am y trefniadau ac i'r Cartref am y lluniaeth hyfryd a gafwyd ar y diwedd.**

**Dymunwyd yn dda i Hazel Julian (E) a fydd yn dathlu'i phen-blwydd yn 90 ar 27 Hydref.**

## CYMDEITHAS CHWIORYDD ELIM

| Dyddiad | Diwrnod | Amser | Lle | Digwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **26.11.2024** | **Mawrth** | **12** | **Pentrecelyn** | **Cinio Nadolig** |

***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***



## PANED A SGWRS



**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**Bore Mawrth - 10.30**
**5 Tachwedd 2024**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

## GWASANAETH DIOLCHGARWCH PLAS-Y-DDERWEN















## DIOLCH Y BANC BWYD

*Llythyr a dderbyniodd ein Gweinidog yn ddiweddar*

**Hoffwn ddiolch i chi a'ch cynulleidfaoedd rhyfeddol am eich holl roddion Diolchgarwch.**




**Ryn ni'n gweld cynnydd parhaus yn yr angen am ddefnyddio'r Banc Bwyd gan bobl yng Nghaerfyrddin a'r cylchoedd cyfagos. Anodd credu hyn yn yr unfed ganrif ar hugain yn y Deyrnas Unedig.**

**Roedd eich rhoddion yn pwyso 184.45 cilogram. WOW 😊**

**Unwaith eto, diolch o galon i chi a gobeithiaf y gallwn barhau i gynnal y cydweithio yn y dyfodol.**

**Cofion gorau**

**Cath Cork**
**Rheolwr y Banc Bwyd**
**01267 225996**

## CASGLIADAU'R PRIORDY

**Dydd Sul 1 Rhagfyr 2024**

**Byddd y casgliad rhydd yn mynd at Ganolfan Galw-i-Mewn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg i'w helpu i baratoi Cinio Nadolig (ar Ddydd Nadolig) ar gyfer anffodusion ein tref.**

**Dydd Sul 8 Rhagfyr 2024**

**Bydd y casgliad rhydd yn mynd at yr Ysgol Sul i hyrwyddo'n gweithgarwch gyda'r to iau**

**Y Sul hwn hefyd y gwneir ein casgliad olaf er cwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn**

## CASGLIAD ELIM

**Dydd Sul 8 Rhagfyr 2024**
**Casgliad y Gwasanaeth Nadolig yn mynd at Apêl Bandi**

# OEDFA DDIOLCHGARWCH DEULUOL ELIM











# Oedfa Ddiolchgarwch Elim

***ROEDD*** cyffro mawr yn Elim ar fore Sul 6 Hydref wrth i deulu'r eglwys ddod ynghyd i gynnal eu hoedfa ddiolchgarwch. Croesawyd y gynulleidfa niferus i'r oedfa gan Beti-Wyn a gosodwyd y naws yn hyfryd gan Luned wrth iddi gyhoeddi'r emyn cyntaf 'Diolch Diolch Iesu.'

Yn dilyn y cyhoeddiadau niferus a gyflwynwyd gan Brian Walters, bu Trystan, Isaac, Aneuryn a Luned yn casglu'n ofalus o sedd i sedd cyn i Beti-Wyn offrymu gweddi i fendithio'r casgliad. Gwahoddwyd y plant ymlaen i'r sedd fawr i gyflwyno eu rhoddion Cynhaeaf i Fanc Bwyd Caerfyrddin, a chyn pen dim roedd y sedd fawr yn llawn o gyfraniadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau eraill.

Lara gyflwynodd yr emyn nesaf yn glir a phwyllog a phawb yn cael hwyl wrth ymuno yn y symudiadau i'r geiriau 'Pwy wnaeth y sêr uwchben.' Cyflwynodd Luned, Siân a Heledd ddameg Iesu Grist, 'Dameg yr had yn tyfu' - dameg sy'n esbonio rhyfeddod byd natur yn syml a chlir ond hefyd ddylanwad Duw arnom wrth i ni glywed hanes Iesu a'i blannu yn ein calonnau. Wrth glywed mwy am Iesu a dysgu am ei gariad tuag atom mae'r hedyn yn tyfu. Os daliwn ati i ddarllen a gwrando ar hanesion am Fab Duw a'i fywyd arbennig ar y ddaear, bydd planhigyn iach iawn o ffydd yn tyfu oddi mewn i ni.

Daeth Gwenno i ledio'r emyn nesaf 'Caraf yr haul sy'n wên i gyd' a'i gwên hithau yn llenwi'r pulpud. Tro Rob, Amy a Menna oedd hi wedyn i'n harwain i ddiolch am yr Haul, ein Dŵr a'n Bwyd cyn i Enlli gyhoeddi'r emyn nesaf mewn modd hyfryd iawn - 'Cofia bob amser'. Arweiniwyd y gynulleidfa yn effeithiol mewn gweddi gan Miriam cyn i bawb fwynhau yn fawr ganeuon gan blant yr Ysgol Sul - 'Fel hyn ni'n plannu tato...moron...yn yr ardd!' a 'Dail y coed sy'n cwympo lawr'.

Ymatebodd y plant yn ardderchog i gwestiynau Beti-Wyn a dysgwyd bod gan daten lygad, blodfresych galon a bod winwns yn creu dagrau ac mai tomato yw afal cariad a bod gan gorn melys glustiau! Diolchwyd i Dduw am lygaid i weld, calon i garu, a chlustiau i wrando, gan gofio bod Duw yn sychu'n dagrau hefyd.

Ar ôl canu 'Iesu Geidwad bendigedig' gweinyddwyd Y Cymun gan Beti-Wyn a chyfeiriwyd at y ddiweddar Eirwen Jones, aelod yn Elim, a gollwyd o'n plith yn ddiweddar.

Ymunodd pawb i ganu 'Pob peth, ymhell ac agos' i ddiweddu oedfa Deulu yng ngwir ystyr y gair gyda'r plant a'u rhieni yn cymryd rhan, a thair a phedair cenhedlaeth ambell deulu yn bresennol yn yr oedfa.

Diolch i athrawon yr Ysgol Sul, y plant a'r rhieni am yr holl waith paratoi. Diolch hefyd i John Evans a oedd wrth yr organ.

Nid yw un dathliad Cynhaeaf yn gyflawn heb baned a brechdan! A do, cafwyd hynny yn y festri wedi'r oedfa a chyfle i bawb gymdeithasu.

***BU'R*** bore yn destun diolch yn mhob ffordd.



## CORNEL

## CODI GWÊN!

Yn dilyn oedfa yn y capel un bore Sul dywedodd bachgen bach wrth ei fam: 'Mam, rwy wedi penderfynu fy mod am fod yn weinidog pan fyddaf wedi tyfu lan.'

'Ardderchog' meddai'i Fam 'ond pam wyt ti wedi penderfynu bod yn weinidog?'

'Wel' meddai'r bachgen bach 'rwy'n mynd i'r capel bob dydd Sul ta beth, a meddyliais y byddai'n fwy o sbri i sefyll ar fy nhraed a gweiddi na gorfod eistedd i lawr yn dawel a gwrando!'

**YMARFERION CANU AR GYFER Y NADOLIG O FIS TACHWEDD YMLAEN YN DILYN YR OEDFAON**



- **Parti Merched y Priordy**
- **Parti Bechgyn y Priordy**

- **Parti Heol Awst ac Elim**

**Croeso cynnes i bawb**

Ein Papur yn cofio…




## JOHN AMBROSE LLOYD
## 1815-1874
### *Cerddor Cymraeg ac Awdur Emyn-donau*

Meddai Emrys Cleaver ar ddechrau'i bortread o John Ambrose Lloyd yn ei gyfrol *Gŵyr y Gân* (1964):

*'Un o ŵyr y Cysegr yw John Ambrose Lloyd a'r capel neu'r eglwys yw'r lle gorau i'w roi ef.'*

Cafodd ei eni yn yr Wyddgrug ar 14 Mehefin 1815. Uwchben yr adeilad lle'i ganed, yn y Stryd Fawr yn y dref honno mae plac yn dwyn y geiriau sydd ar chwith y tudalen. Banc Barclays sydd yno bellach. Roedd yn fab i Enoch Lloyd, gwneuthurwr dodrefn a'i briod Catherine.




Roedd Enoch yn pregethu gyda'r Annibynwyr cyn troi at y Bedyddwyr a chael ei ordeinio'n weinidog ar eglwys Hill Cliffe yn ymyl Warrington.

Pan symudodd y teulu i Hill Cliffe, ac yntau'n 15 oed, aeth John Ambrose Lloyd at ei frawd Isaac yn Lerpwl i'w helpu fel athro ac i baratoi ar gyfer bod yn athro ei hunan. Treuliodd 20 mlynedd yno fel athro ond torrodd ei iechyd a gadawodd addysgu ym 1849. Mentrodd yntau a chyfaill iddo i fyd busnes fel lithograffwyr ond methiant fu'r fenter honno.

Bu wedyn yn drafaeliwr yng Ngogledd Cymru. Bu'n byw yn Bwlch Bach, Dyffryn Conwy a Chaer ac ym 1864 symudodd i'r Rhyl lle'r ymgartrefodd weddill ei oes. Bregus oedd ei iechyd a rhoddodd ei swydd i fyny ym 1871. Aeth ar fordaith i'r Aifft i drio adfer ei iechyd ond ddaeth e ddim adref. Gwaethygodd ei gyflwr. Cyrhaeddodd Lerpwl lle **bu farw 14 Tachwedd 1874, sef cant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn**, a chafodd ei gladdu yno. Mae cofebau iddo yn yr Wyddgrug, y Rhyl ac yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Roedd yntau a'i briod Catherine yn rhieni i ddau fab, John Lloyd a Charles Francis Lloyd, y ddau ohonynt yn gerddorol iawn. A Charles Francis ac Elfed gyhoeddodd gofiant John Ambrose Lloyd.

Yn Lerpwl y datblygodd John Ambrose Lloyd fel cerddor y cysegr.

Mae'n debyg iddo grwydro o eglwys i gapel yn Lerpwl – fel y gwnaeth yn llanc ifanc yn yr Wyddgrug - nes dod yn aelod yn Eglwys Annibynnol y Tabernacl ym 1835. Roedd ei gefnder, y bardd Emrys (William Ambrose) yn aelod yn y Tabernacl a Williams o'r Wern yn weinidog yno a William Rees (Hiraethog) yn olynydd iddo yntau. Symudodd wedyn yn 1841 i Salem, capel newydd yr Annibynwyr yn Brownlow Hill. Bu'i ddylanwad cerddorol yn fawr yn y ddau gapel. Bu'n arweinydd y gân a ffurfiodd gôr ieuenctid ynddynt. Byddai'n dysgu'r aelodau i ddarllen cerrddoriaeth yn seiliedig ar ffurf gynnar y Tonic Sol-ffa. Fe hefyd oedd arweinydd cyntaf Cymdeithas Gorawl Gymraeg Lerpwl ym 1846.

Ei dôn gyntaf oedd Yr Wyddgrug a gyfansoddodd pan oedd yn 16 oed. Ymhlith tonau adnabyddus eraill o'i eiddo mae Whitford, Eifionydd a Groeswen a hefyd yr anthem Teyrnasoedd y Ddaear – yr anthem orau a ysgrifennwyd i eiriau Cymraeg erioed, yn ôl y Dr Joseph Parry. Ac mae'n debyg mai John Ambrose Lloyd oedd y dylanwad mwyaf ar Joseph Parry i ddilyn cwrs y cerddor.

Cyfansoddodd John Ambrose Lloyd nifer fawr o donau, a chyhoeddodd *Casgliad o Donau* (1843) ac *Aberth Moliant* (1870). Mae Emrys Cleaver yn disgrifio *Aberth Moliant*, fel un o'r casgliadau gorau o donau a chorganau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n cynnwys rhai o'i donau gorau. Mae'n nodi fel y cafodd yr eglwys a'r capel ddylanwad ar ei donau. Treuliodd amser rhwng yr Eglwys Wladol a'r Methodistiaid yn yr Wyddgrug cyn dychwelyd at wreiddiau'i dad gyda'r Annibynwyr yn Lerpwl. Yr awgrym yw mai oddi wrth yr Annibynwyr y derbyniodd y bywiogrwydd a'r ysgafnder sy'n nodweddu rhai o'i donau, er enghraifft Wynnstay (Am yr ysgol rad Sabothol / Clod, clod i Dduw), gan ei arbed rhag mynd yn rhy Eglwysig a Methodistaidd!



Roedd yn arloeswr fel cerddor a hefyd, yn ôl yr hanes, yn Gristion hardd fel dyn. Yn ôl y Bywgraffiadur Cymreig, ei brif wasanaeth i Gymru oedd '*rhoi iddi donau teilwng yn gyfryngau mawl ar ôl iddynt fod yn canu tonau gwael a ddaeth o Loegr i Gymru yn y ddeunawfed ganrif.*' Mae'r Bywgraffiadur yn ychwanegu: '*Nid oes gasgliad o donau a ddefnyddir gan Gymry yn unrhyw ran o'r byd na cheir nifer da o'i donau ef ynddo,*' Mae pymtheg o'i donau yn Caneuon Ffydd.

# CINIO'R GYMDEITHAS













**Joan Thomas…**



## CINIO DIOLCHGARWCH Y GYMDEITHAS

**Cafwyd ychydig o oriau pleserus brynhawn dydd Mawrth 22 Hydref, pan ddaeth nifer dda o aelodau eglwysi Elim, Heol Awst, Y Priordy, a chyfeillion, ynghyd i Westy'r Hebog, i ginio Diolchgarwch a drefnwyd gan Olga Williams (HA).**

**Yn dilyn y croeso i bawb gan Olga yn ei ffordd ddihafal hi ei hun, gofynnwyd gras bwyd gan Beti-Wyn cyn i bawb gael llond bol o ginio blasus yn cael ei ddilyn gan bwdin llawn mor flasus.**

**Yn ôl y sŵn siarad wrth y byrddau, mwynhaodd pawb gwmni ei gilydd a'r cyfle i gymdeithasu yn ogystal â bwyta. Cyn i ni ymadael diolchodd Beti-Wyn i'r gwesty am y croeso a'r lluniaeth, i'r staff am y gweini gofalus a hapus ac i Olga am y trefniadau gofalus.**

| CWIS Y GWYRTHIAU<br>beibl.net<br>ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | cwch | 6 | bysgodyn |
| 2 | sâl | 7 | glaswellt |
| 3 | hwyr | 8 | gweddi |
| 4 | bwyd | 9 | pum |
| 5 | pum | 10 | phlant |

**OEDFA ADFENT CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 5 Rhagfyr – 2.30 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**
**Croeso i bawb**






Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at:
cyfundeb.com

## CHWIORYDD ELIM

**Cafodd Cymdeithas Chwiorydd Elim brynhawn difyr iawn yn gwylio Helen Jones yn arddangos blodau a phawb y rhyfeddu at ei dawn a'i gallu. Diolch i bawb a ddaeth ac i Helen am ei chwmni. Braf oedd cymdeithas dros baned a danteithion ar ddiwedd y prynhawn.**



# SULIADUR YR OFALAETH



## TACHWEDD / RHAGFYR 2024

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd 3** | Priordy ©-<br>Ein Gweinidog<br>Oedfa Deulu | Elim © (a HA)<br>Ein Gweinidog | | |
| **Tachwedd 10** | Priordy<br>Ein Gweinidog | | Heol Awst © (ac E)<br>Ein Gweinidog | |
| **Tachwedd 17** | Priordy<br>Gareth Morgan Jones | Elim (a HA)<br>Margaret Griffiths | | |
| **Tachwedd 24** | Priordy<br>Ein Gweinidog | | Heol Awst (ac E)<br>Ein Gweinidog | |
| **Rhagfyr 1** | Priordy©<br>Ein Gweinidog | Elim © (a HA)<br>Ein Gweinidog | | Priordy 5.00<br>(Oedfa Nadolig PIP) |
| **Rhagfyr 8** | Priordy<br>Oedfa Nadolig | | Elim (a HA)<br>Oedfa Nadolig | Heol Awst<br>Y Blygain 7.30 |
| **Rhagfyr 15** | Heol Awst ©<br>Oedfa Nadolig<br>(E, HA a P)<br>Ein Gweinidog | | | |
| **Rhagfyr 22** | Priordy<br>Oedfa Nadolig<br>(E, HA a P)<br>Ein Gweinidog | | | Bancyfelin<br>Gorymdaith ac<br>Oedfa Nadolig i'r Ofalaeth<br>6.00 |
| **Rhagfyr 25**<br>Bore Nadolig | Priordy 9.00<br>Oedfa i'r Ofalaeth<br>Ein Gweinidog | | | |
| **Rhagfyr 29** | Heol Awst<br>i Eglwysi'r Dref<br>Ein Gweinidog | | | |

## AMSERLEN YR YSGOL SUL
## TACHWEDD / RHAGFYR 2024



**Elim**

10 Tachwedd – Ysgol Sul
17 Tachwedd – Ysgol Sul
24 Tachwedd – Ysgol Sul
1 Rhagfyr – Ysgol Sul
8 Rhagfyr – Oedfa Nadolig

**Y Priordy**

3 Tachwedd - Oedfa Deulu
10 Tachwedd – Ysgol Sul
17 Tachwedd – Ysgol Sul
24 Tachwedd – Ysgol Sul
1 Rhagfyr – Ysgol Sul
7 Rhagfyr (Sadwrn) - Ymarfer
8 Rhagfyr – Oedfa Nadolig



Ffynhonnau Byw

## APÊL FFYNHONNAU BYW

**Mae'r Priordy wedi anfon £850 at yr Apêl. Diolch i bawb a gyfrannodd ym mhob rhyw fodd ac i Adrian Evans am gadw'r cyfrifon.**

## OFFER DIGIDOL ELIM

**Hyfryd gweld yr offer digidol yn Elim. Diolch i'r Parchedig Tom Defis a Marc Griffiths am eu cymorth**





## CALENDR ADFENT RHITHIOL YR OFALAETH

**Ymunwch â ni'n ddyddiol drwy'r Adfent**

**Diolch i Angharad a Ieuan Wyn (P) am baratoi'r Calendr**



## ROTA YMWELWYR ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY
***TACHWEDD / RHAGFYR***



| E | Aelodau | HA | Aelodau | P | Catrin H Jones, Betsan James, Eirlys Davies, Margaret Ll Evans |
|---|---|---|---|---|---|

| DYLETSWYDDAU'R SUL - HEOL AWST | |
|---|---|
| **Tachwedd**<br>Alun ac Olga Williams | **Rhagfyr**<br>8 - Nigel George a Rhian Jones    15 - Phil Hopley a Hywel Evans<br>29 - Joan Thomas a Roy James |

## DYLETSWYDDAU'R PRIORDY

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Tachwedd | | Rhagfyr | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Jayne Woods | Huw Jones | Dennis Jones | Huw Michael |

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | **3** | Di-enw | **Rhagfyr** | **1** | |
| | **10** | | | **8** | Oedfa Nadolig |
| | **17** | Gloria Evans | | **15** | |
| | **24** | | | **22** | |
| | | | | **29** | |

### PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | **3** | **Bore** | Mwynwen Jones a Thelma Evans |
| **Rhagfyr** | **1** | **Bore** | Catrin Mair Jones ac Alison Parsons |

### DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | **3** | Y Plant | **Rhagfyr** | **1** | Meinir Jones |
| | **10** | Eirlys Davies | | **8** | Y Plant |
| | **17** | Sulwyn Thomas | | **15** | Heol Awst - Aelodau |
| | **24** | Dennis Jones | | **22** | Priordy - Alun Charles |
| | | | | **29** | Heol Awst - Undebol |

### CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | Huw Michael | **Rhagfyr** | Carys Morgans |

## CAPEL ELIM

### DYLETSWYDDAU CYMUN (C) / BLODAU (B)

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | **3** | **C**<br>**B** | Claire Thomas<br>Amanda R Davies | **Rhagfyr** | **1** | **C**<br>**B** | Alison Evans<br>Ann Walters |
| | **17** | **B** | Anona Davies | | **8** | **B** | Ann Walters |

## Y ddiweddar Eira Jenkins

Gyda thristwch y clywsom am golli Eira Jenkins a fu farw’n dawel ar 5 Hydref 2024 yn Nhŷ Llandaf, Caerdydd ble bu’n derbyn gofal ardderchog dros y blynyddoedd diwethaf.



Yn enedigol o Aberdyfi, roedd ei chariad at y fro honno’n fawr o hyd, a manteisiodd ar bob cyfle i ymweld â’r rhan bryderth hon o Wynedd.

Treuliodd Eira ei gyrfa ym myd addysg ac roedd yn athrawes Saesneg uchel iawn ei pharch. Wedi cyfnod yn byw yn Aberdår, symudodd y teulu i Gaerfyrddin pan benodwyd Wynne yn athro yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn. Daeth Eira â’i doniau i’r fro hefyd gan dreulio cyfnod yn dysgu yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin a bu’n Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Gyfun Llanbed.

Bu Eira yn ffyddlon iawn i fywyd Cymraeg a Chymreig y dref. Roedd yn wraig a chanddi ddoniau arbennig iawn ac ystod o ddiddordebau. Roedd yr aelwyd yn Heol Bronwydd yn llawn trugareddau diddorol ac Eira wrth ei bodd yn rhannu ei hanes, a’i phrofiadau am yr amryw deithiau tramor y bu i hi a Wynne yn eu mwynhau. Wrth feddwl am Eira, fe gadwn y diweddar annwyl Wynne yn ein calonnau hefyd. Cofiwn gyda diolchgarwch am eu ffyddlondeb i’r ‘pethau’ yng Nghaerfyrddin a thu hwnt, ac yn arbennig am eu ffyddlondeb yn Y Priordy. Bu’r ddau yn bresenoldeb cyson ac yn ffyddlon i bob agwedd ar fywyd yr eglwys.

Wedi’r cyfnod clo, symudodd i Gaerdydd i fod yn nes at y teulu ond roedd ei diddordeb ym mywyd yr eglwys yn parhau. Roedd yn wyliwr cyson o’r Oedfa Ddigidol tan i’w hiechyd fethu ac yn parhau i dderbyn copi o bapur yr eglwys bob mis. Diolch yn fawr i bawb a fu’n cadw cyswllt â hi.

Roedd ei hangladd yn gwbl breifat yn ôl ei dymuniad. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Prys a Llyr a’r cysylltiadau teuluol i gyd.

**Ein Gweinidog**

***EIN*** **cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Sarah Jenkins (HA), Elfed Lewis (P), Amy Evans (E) a Peter Hughes Griffiths (P). Cofion cynnes atoch i gyd.**

**Mae Theatr Genedlaethol Cymru yr Hydref hwn yn cynnal pecyn o waith sy'n codi ymwybyddiaeth am yr argyfwng dyngarol presennol yn Gaza ac yn creu cysylltiadau creadigol newydd**



**rhwng pobl ifanc yng Nghymru a Phalesteina – gyda throsiad newydd i'r Gymraeg o'r ddrama *My Name is Rachel Corrie* a phrosiect creadigol gydag Ashtar Theatre, sef cwmni theatr cyffrous yn Ramallah, Palesteina. Menna Elfyn (P) sy'n gyfrifol am y trosiad o'r ddrama a dyma'r tro cyntaf iddi gael ei chyflwyno yn y Gymraeg.**



**Ar Prynhawn Da ar S4C bu Dr Llinos Roberts (P) a Mari Grug yn trafod pwysigrwydd mis Hydref sy'n fis codi ymwybyddiaeth o ganser y fron.**



**Roedd Mwynwen Jones a Gwion (P), Luned Voyle Thomas (P), Sioned Snelson (P) ac Ian Marks (HA) ymysg y rhai a fu'n rhedeg Hanner Marathon Caerdydd yn ddiweddar, gan orffen yn llwyddiannus a chodi arian at amrywiol elusennau pwysig. Cyflawnodd Sioned Farathon Eryri hefyd! Ardderchog!**

**Bu Elinor W Reynolds (P) ar S4C adeg dathlu pen-blwydd Pobol y Cwm - yr opera sebon unigryw a gafodd ei sefydlu union hanner canrif yn ôl yn 1974 - yn trafod pwysigrwydd y gyfres o safbwynt y Gymraeg a Chymreictod.**

**Bu Osian (P) ar Raglen Ifan Jones Evans ar Radio Cymru yn sôn am y band y mae'n perthyn iddo, sef Alys a'r Tri Gŵr Noeth. Byddwch yn cofio i Osian ysgrifennu erthygl ddiddorol am y Band ym Mhapur Medi (2024). A chlywyd Brian Walters (E) yn adrodd am straeon gwledig y Wasg ar Troi'r Tir ar Radio Cymru.**

***I GLOI***, **pen-blwydd hapus iawn i Rhian Evans (P) a Llifon Evans (P), y ddau'n dathlu pen-blwydd arbennig y mis hwn, y naill ar 16 Tachwedd a'r llall ar 18 Tachwedd. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt!**



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Rhagfyr i'n
Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

**Myfanwy Jones a Bryan (P) ar golli cefnder Myfanwy, sef Elis Jones, Llanarmon Dyffryn Ceiriog.**

**Peter Hughes Griffiths a Meinir (P) ar golli cefnder Peter, sef Clement a'i briod Elvie a hynny o fewn amser byr i'w gilydd yn Llangennech.**

**Helen Jones (HA) ar golli'i gŵr, Berwin yma yng Nghaerfyrddin.**

**Cofiwn amdanoch i gyd yn eich galar a'ch hiraeth**



**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn.**

**APÊL ANRHEGION NADOLIG
CYNGOR SIR GÂR- 2024**

**COFIWCH AM YR APÊL, OS GWELWCH YN DDA. MAE'R MANYLION LLAWN AR DUDALEN 20 - TUDALEN YR IFANC.
MAE BLWCH YN Y CAPEL AR GYFER DERBYN ANRHEGION**

**OEDFAON NADOLIG YR OFALAETH**
**(*nodwch bod rhai newidiadau i'r drefn wreiddiol)***

**Y Priordy**
***Nos Sul, 1 Rhagfyr am 5.00***
Oedfa dan olau cannwyll yng nghwmni Pobl Ifanc Y Priordy
***Bore Sul 8 Rhagfyr am 10.00***
Oedfa Nadolig Y Priordy yng nghwmni'r Ysgol Sul ac eraill
Paned i ddilyn a pharti'r Ysgol Sul
***Bore Sul 22 Rhagfyr***
Oedfa Llith a Charol y Y Priordy am 10.00
i'r Ofalaeth gyfan. Paned i ddilyn.

**Elim, Ffynnon-ddrain**
***P'nawn Sul 8 Rhagfyr am 3.00***
*Oedfa Nadolig* yng nghwmni plant yr Ysgol Sul ac eraill
Parti i ddilyn

**Y Blygain**
***Nos Sul 8 Rhagfyr am 7.30***
yng Nghapel Heol Awst

**Heol Awst**
***Bore Sul, 15 Rhagfyr am 10.00***
**'**Awn i Fethlem…'
Oedfa Nadolig
gydag Elim a'r Priordy yn ymuno
Paned a mins pei i ddilyn

**Cana**
***Pnawn Sul 15 Rhagyfr am 1.30***
Oedfa Nadolig yng nghwmni plant yr Ysgol Sul
Parti i ddilyn

**Bancyfelin**
***Nos Sul, 22 Rhagfyr am 6.00***
Gorymdaith y Nadolig drwy'r pentref
Oedfa, paned a mins pei i ddilyn yn y capel

**Noswyl Nadolig**
Epilog dros Zoom am 9.00

**Bore Nadolig**
Oedfa Deulu fer yn Y Priordy am 9.00